FFRAMWAITH DIOGELWCH GWYBODAETH

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb:	**Mehefin 2024**
Asesiad o Effaith ar y Gymraeg:	**Mehefin 2024**
Cymeradwywyd gan:	**Y Bwrdd**
Awdur:	**Cyfarwyddwr TGCh, Diane Clark**
Dyddiad cymeradwywyd:	**Gorffennaf 2024**
Dyddiad Adolygu:	**Gorffennaf 2025**
Cyhoeddwyd ar:	**Y Wefan Mewnrwyd Porth Dysgwyr**

EFFALLAI NAD HWN YW'R COPI CYFREDOL OS YDYW WEDI'I ARGRAFFU

Cyfeirnod:	CGISMS-POLICY-ISF01-PUBLIC
Fersiwn:	1.1
Dyddiad cymeradwyo:	Gorffennaf 2024
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Corfforaethol
Enw a theitl deiliad y polisi:	Diane Clark, Cyfarwyddwr TGCh
Dyddiad adolygu:	Gorffennaf 2025

Fersiwn	**Math – Newydd/Amnewid/Adolygu**	**Dyddiad**	**Hanes**
1.0	Newydd	Rhagfyr 2023	Templed dogfen newydd Polisi Diogelu Data wedi'i ymgorffori'n rhan o'r Fframwaith Diweddarwyd i alinio â gofynion Hanfodion Seiber Diweddarwyd yn dilyn COVID a ffordd newydd o weithio o bell
1.1	Amnewid	Gorffennaf 2024	Diweddarwyd i ddarparu arweiniad ar ddiogelu data a defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (Artificial Intelligence - AI) Diweddarwyd i adlewyrchu cyflwyno rheolaethau technegol ac arferion gweithio newydd.

Tudalen

1.	**FFRAMWAITH**	**1**
2.	**POLISI DEFNYDD DERBYNIOL**	**6**
3.	**POLISI E-DDIOGELWCH**	**10**
4.	**POLISI DIOGELWCH GWYBODAETH**	**15**
5.	**POLISI DIOGELU DATA**	**17**

EFFALLAI NAD HWN YW'R COPI CYFREDOL OS YDYW WEDI'I ARGRAFFU

FFRAMWAITH DIOGELWCH GWYBODAETH

RHAGARWEINIAD

Mae arfer da o ran defnydd o ddiogelwch Technoleg Gwybodaeth (TG) yn elfen hanfodol wrth ddarparu'r rhaglenni ac isadeiledd technegol hynny sy'n sylfaen ac yn cefnogi gweithgareddau addysgu, dysgu, a gweithgareddau gweinyddol y Coleg.

Rhaid i'r Coleg: -

i. sicrhau bod ei ddysgwyr a staff yn aros diogel wrth ddefnyddio technoleg; a
ii. diogelu eu hasedau gwybodaeth.

Wrth wneud hyn, bydd y Coleg yn:-

- sicrhau bod y dysgwyr a'r staff yn llawn ymwybodol o'u cyfrifoldebau personol dros warchod ei hunain ac asedau gwybodaeth y coleg yn unol â chanllawiau'r Coleg neu unrhyw sefydliad allanol;
- atal colli data a troseddolrwydd;
- cynnal a gwella ei henw da a chyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol a nodau strategol busnes a phroffesiynol; a
- amddiffyn ei hun rhag unrhyw golled ariannol sy'n deillio o dor diogelwch.

PWRPAS A CHWMPAS

Mae'r fframwaith hwn yn berthnasol i bob dysgwr ac aelod o staff, gan gynnwys unigolion sy'n gwneud gwaith yn neu ar gyfer y Coleg *(cyfeiriwyd atynt fel defnyddwyr yn y polisi hwn)* sydd wedi'u hawdurdodi i gael mynediad at adnoddau TGCh y Coleg a/neu ymdrin â gwybodaeth Coleg Gwent.

Er diben y fframwaith hwn, mae adnoddau TGCh Coleg Gwent *(boed wedi'u lleoli ar eiddo Coleg neu rywle arall)* yn cynnwys yr holl: -

- caledwedd (corfforol & rhith); megis byrddau gwaith, gweinyddion, neu ddyfeisiau symudol;
- perifferol; megis monitorau, bysellfyrddau, gyriannau caled allanol, ac argraffwyr;
- rhwydweithiau; megis gyriannau a rennir, WiFi a rhwydweithiau telathrebu a
- systemau; megis e-bost a'r data sy'n gysylltiedig â systemau.

Er diben y fframwaith hwn, mae gwybodaeth Coleg Gwent gwybodaeth yn cynnwys pob: -

- fformat electronig; a
- fformat copi caled.

STRWYTHUR

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio o gwmpas a chyfres o bolisïau sy'n anelu at amddiffyn: -

POBL: gan sicrhau bod dysgwyr, staff, ac eraill sydd â mynediad at gyfleusterau TGCh y coleg yn aros yn ddiogel wrth wneud hynny.

RHWYDWAITH & ISADEILEDD: gan sicrhau bod isadeiledd technegol ac asedau corfforol yn ddiogel rhag lladrad, difrod, mynediad heb awdurdod, neu ymosodiad maleisus.

DATA AC ASEDAU GWYBODAETH: sicrhau bod yr holl wybodaeth y mae'r Coleg yn ei chasglu, ei phrosesu, a'i chadw yn cael ei gadw'n ddiogel a bod cyn lleied â phosibl o risg o fynediad heb awdurdod neu ddatgeliad amhriodol.



CYFRIFOLDEBAU

Mae'r Cyfarwyddwr TGCh yn gyfrifol am ddiffinio, adolygu, a chyhoeddi'r fframwaith hwn ac am ddarparu arweiniad a chyngor i'w gefnogi.

Mae pob rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bod y staff a'r dysgwyr o fewn eu maes o gyfrifoldeb yn gweithredu'n unol â'r polisïau hyn a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu.

Mae disgwyl i holl ddefnyddwyr adnoddau TGCh Coleg Gwent TGCh a'r unigolion sy'n ymdrin â gwybodaeth Coleg Gwent fod ag ymwybyddiaeth briodol o ac arsylwi'r polisïau o fewn y fframwaith hwn, yn ystod, a, lle bo'n briodol, ar ôl eu cyfnod yn y Coleg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol a phroffesiynol.

Mae pob unigolyn yn atebol yn bersonol am ei ymddygiad a gellir ei ddal yn atebol am unrhyw dor y polisïau hyn.

ADRODD AM BRYDERON A DIGWYDDIADAU

Bydd y Coleg yn sicrhau bod adrodd digonol ar ddigwyddiadau yn cael eu cynnal a fydd yn manylu ar yr holl ddigwyddiadau yr ystyrir eu bod wedi torri'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith hwn.

Bydd yr adroddiadau'n cynnwys:

- natur y digwyddiad;

- manylion o ran ymchwiliadau a gynhaliwyd i mewn i achos y tor polisi; a
- camau gweithredu gofynnol i leihau'r risg y bydd y digwyddiad yn digwydd eto

Dylid ymchwilio i bob digwyddiad a rhoi gwybod amdano cyn pen 7 niwrnod o'r digwyddiad neu hysbysiad o'r digwyddiad. Os oes amheuaeth o weithred droseddol, gall y Coleg ystyried cysylltu â'r heddlu ar unwaith. Bydd unrhyw dor diogelwch gan aelod o staff neu ddysgwr yn destun polisi Disgyblu'r coleg, y Polisi Gwrth-dwyll, neu God Ymddygiad y Dysgwr.

Mae'r holl staff a dysgwyd yn gyfrifol am adrodd ar bob pryder a digwyddiadau fel a ganlyn:

Polisi	Rheolwr sydd i gael gwybod am unrhyw bryder / digwyddiad	Enw	Sut i adrodd
Defnydd Derbyniol	Cyfarwyddwr TGCh	Diane Clark	E-bost: diane.clark@coleggwent.ac.uk
E-Ddiogelwch	Swyddogion Diogelu	BGLZ: Laura May Aylett Crosskeys: Ryan Chard Casnewydd: June Bridgeman TLZ a Brynbuga: Sian Hughes	E-bost: lauramay.aylett@coleggwent.ac.uk ryan.chard@coleggwent.ac.uk june.bridgman@coleggwent.ac.uk sian.hughes@coleggwent.ac.uk ar-lein trwy'r pyrth staff a dysgwyr
Diogelwch Gwybodaeth	Swyddog Diogelu Data Cyfarwyddwr TGCh	Anna Lebar-Hill Diane Clark	E-bost: dpo@coleggwent.ac.uk diane.clark@coleggwent.ac.uk ar-lein trwy'r pyrth staff a dysgwyr
Diogelu Data	Swyddog Diogelu Data Cyfarwyddwr TGCh	Anna Lebar-Hill Diane Clark	E-bost: dpo@coleggwent.ac.uk diane.clark@coleggwent.ac.uk ar-lein trwy'r pyrth staff a dysgwyr

MONITRO

Mae pob e-bost, defnydd o'r rhyngrwyd, galwadau ffôn a defnydd TGCh arall yn cael eu cofnodi, a gall fod yn destun monitro awtomataidd. Gellir cyflawni gwaith monitro yn unol â rhwymedigaethau cymwys o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) a lle caniateir hyn o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (a rheoliadau cysylltiedig) er diben:

- atal neu ganfod gweithgareddau troseddol;
- ymchwilio neu ganfod defnydd anawdurdodedig o adnoddau TGCh y Coleg;
- canfod cydymffurfiad gydag arferion rheoleiddiol neu hunanreoleiddiol neu weithdrefnau a safonau; a
- sicrhau gweithrediad system effeithiol.

Ni chaniateir i aelod o staff, fel mater o drefn, i fonitro neu ymchwilio i ddefnydd unigolion o adnoddau TGCh Coleg Gwent. Fodd bynnag, lle mae sail resymol dros wneud amau enghraifft o ddefnydd annerbyniol o unrhyw adnoddau TGCh, neu lle gwneir cais cyfreithlon gan yr heddlu neu awdurdod arall, gellir rhoi caniatâd gan y Dirprwy Bennaeth ar gyfer monitro neu ymchwilio i ddefnydd unigolyn o gyfleusterau TGCh y Coleg. Gall hyn gynnwys monitro e-bost, defnydd o'r rhyngrwyd ac ymdrechion i fewngofnodi i gyfrifon. Bydd staff sy'n cael eu monitro yn unol â chamau disgyblu yn cael gwybod am hyn trwy weithdrefn ddisgyblu AD.

Mae gan y Coleg ddyletswydd amlwg dan a26(1) y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi sylw digonol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Coleg fonitro ac adrodd ar y defnydd o gyfleusterau TGCh perthnasol e.e ymdrechion i gael mynediad i wefannau terfysgaeth.

Bydd y coleg yn defnyddio dyfeisiau monitro a meddalwedd canfod ymyrraeth i fonitro diogelwch rhwydwaith. Bydd unrhyw ddyfeisiau sy'n gweithredu o fewn rhwydwaith y Coleg sy'n dangos bygythiad i ddiogelwch yn cael ei ddileu o'r rhwydwaith.

Defnyddir systemau teledu cylch cyfyng yn y Coleg i atal a chanfod trosedd ac er dibenion addysgol.

Rhaid gosod systemau teledu cylch cyfyng i osgoi tynnu lluniau o bobl nad ydynt yn ymweld â safleoedd y Coleg. Bydd y delweddau a recordiwyd yn cael eu storio yn ddiogel ac yn cael eu cadw am gyfnod gofynnol yn unig (bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar yr offer/lleoliad penodol).Bydd y recordiadau ar gael i drydydd parti yn unig, megis asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chwmnïau yswiriant sydd â'r unig ddiben o atal a chanfod trosedd. Rhaid i'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth gymeradwyo'r broses o ryddhau recordiadau.

CANLYNIADAU DIFFYG CYDYMFFURFIAETH

Gall diffyg cydymffurfio â'r fframwaith ac unrhyw dor polisi arwain at:

- camau disgyblu yn unol â pholisïau'r coleg;
- tynnu hawl defnyddiwr i gael mynediad at adnoddau TGCh Coleg Gwent yn ôl;
- camau adfer i ddatrys unrhyw dor polisi; a
- lle bo'n briodol, datgelu gwybodaeth i asiantaeth gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau rheoleiddio

ADOLYGU, DATBLYGU A DOSBARTHU

Bydd y fframwaith, a pholisïau ategol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol i sicrhau eu bod yn:

- aros yn weithredol addas i'r diben;
- adlewyrchu newidiadau mewn technolegau;
- cyd-fynd ag arferion gorau diwydiant; a
- cefnogi cydymffurfiaeth rheoleiddio, cytundebol, a cyfreithiol parhaus

Bydd y fframwaith, a pholisïau ategol, yn hygyrch trwy fewnrwyd staff, porth y dysgwr, a gwefan y Coleg.

CYFREITHIAU PERTHNASOL I'R FFRAMWAITH

Dylid darllen y fframwaith yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth ganlynol :

- Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau (1988);
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron (1990);
- Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data
- Deddf Diogelu Data (2018);
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (2000);
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000);
- Deddf Cydraddoldeb (2010);
- Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (2003);
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004); a
- Deddf yr Economi Digidol (2017)

ADBORTH

Mae Coleg Gwent yn croesawu pob adborth adeiladol ar y polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith hwn. Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os hoffech anfon eich sylwadau atom, yna cysylltwch â Hazel Gunter, Cynorthwyydd Personol y Dirprwy Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) drwy e-bost- Hazel.Gunter@coleggwent.ac.uk

POLISI DATGANIAD

Mae'r Coleg yn ceisio hyrwyddo a hwyluso'r defnydd helaeth a chadarnhaol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu er budd cefnogi darpariaeth gweithgareddau dysgu, addysgu, a gweithgareddau gweithredol/gweinyddol.

PWRPAS A CHWMPAS

Mae'r Polisi Defnydd Derbyniol yn diffinio'r hyn a bennir yn:

1. Ddefnydd derbyniol o adnoddau TGCh Coleg Gwent;
2. Defnydd annerbyniol o adnoddau TGCh Coleg Gwent;
3. Arferion derbynion wrth gadw cyfrinachedd, cywirdeb, ac argaeledd gwybodaeth Coleg Gwent.

Mae'r polisi yn berthnasol i bob defnyddiwr *(cyfeiriwch at dudalen 1 ar gyfer diffiniad o ddefnyddwyr)* a dylai gael ei ddarllen ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill y coleg e.e Diogelu Data, E-Ddiogelwch, Diogelwch Gwybodaeth, a pholisïau disgyblu dysgwyr / staff.

POLISI

1. DEFNYDD DERBYNIOL - ADNODDAU TGCh

- Rhoddir enw defnyddiwr a chyfrinair i ddefnyddwyr y dylid eu defnyddio i ddilysu a chael mynediad at adnoddau TGCh. Rhaid cadw'r cyfrinair yn gyfrinachol ac ni ddylai gael ei rannu ag unrhyw un arall. Rhaid newid cyfrineiriau ar unwaith os yw defnyddiwr yn amau ei fod wedi'i beryglu. Rhaid rhoi gwybod i'r adran TGCh am unrhyw amheuaeth o achos fod cyfrinair wedi'i beryglu.

- Mae defnyddwyr yn gyfrifol am bob gweithgaredd sy'n digwydd dan eu henw defnyddiwr a ni ddylid caniatáu i unrhyw un arall gael mynediad at adnoddau TGCh gan ddefnyddio ei enw defnyddiwr a chyfrinair. Mae hyn yn ymestyn i enwau defnyddwyr a chyfrineiriau a gyhoeddir gan drydydd parti lle mae data'r coleg yn cael ei storio e.e gwefannau Cyrff Dyfarnu. Lle mae mynediad i safleoedd trydydd parti yn cael ei rwystro oherwydd absenoldeb salwch hirdymor staff, rhaid i reolwr yr adran ofyn am gyngor gan yr adran TGCh.

- Ni ddylai defnyddwyr ofyn am gyfrineiriau na manylion mewngofnodi sy'n perthyn i ddefnyddiwr arall Coleg Gwent.

- Rhaid i ddefnyddwyr gydymffurfio â'r rheoliadau a'r polisïau a roddwyd ar waith gan gyrff allanol o ran adnoddau TGCh, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i JANET (Rhwydwaith Academaidd ar y Cyd)

- Mae staff a dysgwyr yn cael cyfeiriad e-bost Coleg Gwent felly; dylid anfon pob e-bost sy'n ymwneud â'r coleg drwy gyfeiriad e-bost coleg swyddogol y defnyddiwr e.e. joebloggs@coleggwent.ac.uk neu 10101010@coleggwent.ac.uk.

- Ni ddylai defnydd personol o adnoddau TGCh ymyrryd gyda dyletswyddau gwaith gweithwyr nac astudiaethau dysgwyr. Gallai defnydd personol gormodol yn ystod oriau coleg gael ei ystyried yn drosedd ddisgyblu.

- Rhaid rhoi gwybod i'r adran TGCh am unrhyw weithgaredd amheus megis firysau, gwe-rwydo e-byst, maleiswedd, neu feddalwedd wystlo ar unwaith.

- Rhaid dychwelyd unrhyw adnodd TGCh Coleg Gwent sydd ym meddiant defnyddiwr, i'r adran TGCh ar gais, neu pan fydd y defnyddiwr yn gadael y coleg ar ddiwedd ei astudiaethau neu pan ddaw cyflogaeth i ben.

- Mae holl ddata neu eiddo deallusol Coleg Gwent a ddatblygwyd neu a enillwyd yn ystod y cyfnod cyflogaeth yn parhau i fod yn eiddo i Goleg Gwent ac ni ddylid eu cadw y tu hwnt i ddyddiad terfynu neu eu hailddefnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall.

2. DEFNYDD ANNERBYNIOL – ADNODDAU TGCh

- Ni ddylid defnyddio adnoddau TGCh Coleg Gwent TGCh ar gyfer lawr lwytho, creu, trin, trosglwyddiad, neu storio o:
  a) unrhyw ddelweddau, data neu ddeunydd arall sarhaus, anweddus, neu unrhyw ddata all arwain at ddelweddau neu ddeunydd anweddus;
  b) deunydd anghyfreithlon, neu ddeunydd sy'n ddifenwol, bygythiol, gwahaniaethol, eithafol neu sydd â'r potensial i radicaleiddio eu hunain neu eraill;
  c) e-byst "niwsans" digymell;
  d) deunydd sydd wedi'i ddefnyddio i hwyluso aflonyddu, bwlio a/neu erledigaeth;
  e) deunydd sydd yn hyrwyddo gwahaniaethu ymlaen ar sail hil, rhyw, crefydd neu gred, anabledd, oedran, neu gyfeiriadedd rhywiol;
  f) deunydd gyda'r bwriad o amddifadu drwy dwyll neu sydd yn debygol o dwyllo trydydd parti;
  g) deunydd sy'n eiriol neu'n hyrwyddo unrhyw weithred anghyfreithlon;
  h) deunydd hynny sy'n torri hawliau eiddo hawliau neu hawliau preifatrwydd trydydd parti, neu sy'n torri dyletswydd gyfreithiol sy'n ddyledus i barti arall;
  i) deunydd sy'n dwyn gwarth ar y Coleg.

- Cyflwyno'n fwriadol neu'n fyrbwyll unrhyw fath o ysbïwedd, ymosodiad DDoS, firws cyfrifiadurol neu feddalwedd arall a allai fod yn faleisus a gynlluniwyd i effeithio'n andwyol ar weithrediad unrhyw adnodd TGCh Coleg Gwent.

- Ceisio osgoi neu or-redeg unrhyw fesurau rheoli diogelwch TGCh.

- Achosi difrod di-hid neu fwriadol i adnoddau TGCh Coleg Gwent.

- Ceisio cael mynediad heb awdurdod i feysydd cyfyngedig o rwydwaith y coleg.

- Defnyddio adnoddau TGCh Coleg Gwent adnoddau ar gyfer gweithgaredd masnachol personol.

- Ceisio gosod meddalwedd neu galedwedd heb geisio cyngor a chaniatâd gan yr adran TGCh .

- Storio gwybodaeth mewn storfeydd mewnol na chedwir wrth gefn yn rheolaidd e.e. dreif caled cyfrifiadur. Os yw defnyddwyr yn cael trafferth cyrchu mannau yn ystod gwersi neu gyfarfodydd oherwydd, er enghraifft, problemau gyda'r Wi-Fi, gellir defnyddio'r mannau hyn dros dro ar gyfer y wers/cyfarfod, ond rhaid symud y data i ardal sy'n cael ei chadw wrth gefn yn syth wedyn.

- Symud neu adleoli adnoddau TGCh sefydlog ar safle'r coleg heb geisio am gymeradwyaeth gan yr adran TGCh ymlaen llaw.

3. ARFERION DERBYNIOL - GWYBODAETH DIOGELWCH

- Mae colled neu ladrad damweiniol o adnoddau TGCh Coleg Gwent a /neu wybodaeth Coleg Gwent gwybodaeth wedi'i ddosbarthu fel digwyddiad diogelwch a rhaid rhoi gwybod amdano ar unwaith.

- Mae defnyddwyr yn gyfrifol am allgofnodi o / neu gloi eu cyfrifiadur, gliniadur, llechen ac ati pryd nhw gadael eu desg / man astudio.

- Dylai defnyddwyr storio gwybodaeth Coleg Gwent *(fformat electronig*) ar ardal storio ddiogel e.e rhwydwaith Coleg Gwent, systemau Coleg Gwent, OneDrive Coleg Gwent a chof bach USB wedi'i amgryptio. Ni ddylid storio gwybodaeth Coleg Gwent ar ddyfais caledwedd neu wasanaeth 'Cloud' personol defnyddiwr cyfrif.

- Dylai defnyddwyr storio gwybodaeth bersonol/sensitif Coleg Gwent *(fformat copi caled*) mewn ardaloedd storfa ddiogel e.e cypyrddau ac ystafelloedd gyda rheolaethau mynediad corfforol.

- Dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llawn gan yr adran TGCh y dylid defnyddio dyfeisiau storio symudol (cof bach USB, gyriannau caled symudadwy ac ati). Dylid ond defnyddio dyfeisiau storio symudadwy awdurdodedig Coleg Gwent, gyda meddalwedd amgryptio wedi'i ddefnyddio i gadw gwybodaeth bersonol neu sensitif. Ni ddylid cadw gwybodaeth bersonol ar y dyfeisiau hyn am gyfnod amhenodol a rhaid trosglwyddo'r wybodaeth i rwydwaith y coleg cyn gynted â phosibl.

- Bydd dilysu aml-ffactor (MFA) yn bolisi safonol (lle mae'r meddalwedd yn caniatáu hynny) i ddefnyddwyr gael mynediad at feddalwedd y coleg pan fyddant y tu allan i safle a rhwydwaith y coleg.

- Rhaid cyflwyno ceisiadau i fynd ag adnoddau TGCh 'oddi ar y safle' (cyfrifiaduron personol, taflunwyr ac ati) i'r Cyfarwyddwr TGCh i'w cymeradwyo drwy'r rheolwr llinell.

- Ni ddylai adnoddau TGCh na gwybodaeth Coleg Gwent sy'n cael eu cymryd oddi ar y safle gael eu gadael heb oruchwyliaeth a dylid rhoi sylw a gofal digonol bob amser e.e. peidio â gadael gliniadur mewn man y gellir ei weld yn y car a/ neu adael ffeiliau / rhestrau dosbarth dros nos mewn ceir.

- Bydd defnydd o ddyfeisiau personol (gan staff) i gyflawni gweithgaredd Coleg Gwent yn cael ei gymeradwyo unwaith y bydd y ddyfais wedi'i gwirio i sicrhau ei bod yn bodloni safonau

sylfaenol megis, mae'r ddyfais wedi'i diogelu gan gyfrinair, meddalwedd gwrth-feirws cyfredol, system gweithredu gyfredol ac nad yw'r system gweithredu wedi'i dorri neu fod gwraidd wedi'i osod ar y system.

- Caniateir defnyddio dyfeisiau personol i gyrchu systemau'r coleg dim ond ar ôl gwirio i sicrhau ei bod yn bodloni safonau sylfaenol megis: mae'r ddyfais wedi'i diogelu gan gyfrinair, gosodwyd y feddalwedd wrth-firws ddiweddaraf, cefnogir y system weithredu ac mae heb gael ei 'thorri mewn' neu'i 'gwreiddio'.

- Dylai defnyddwyr sicrhau na yw data personol a chyfrinachol yn cael ei ddatgelu e.e gadael gwybodaeth ar MFD / argraffwyr, neu drwy ganiatáu i ddefnyddwyr heb awdurdod weld gwybodaeth ar fyrddau clyfar a monitorau.

- Rhaid i wybodaeth Coleg Gwent sy'n cynnwys data personol a chyfrinachol gael ei chadw'n ddiogel a'i dinistrio mewn modd cyfrinachol, yn unol â Pholisi Diogelu Data'r coleg.

- Polisi'r coleg yw defnyddio meddalwedd amgryptio pan fydd gwybodaeth bersonol neu sensitif yn cael ei hanfon at drydydd parti. Lle bo cyfyngiadau trydydd parti nad ydynt yn caniatáu amgryptio, gellir defnyddio cyfrinair. Dylid ond defnyddio'r dull hwn ble nad oes dewis arall i ganiatáu trosglwyddiad diogel o ddata a rhaid rhoi gwybod i'r trydydd parti beth yw'r cyfrinair trwy fath gwahanol o gyfathrebu.

- Rhaid defnyddio diogelwch cyfrinair os yw staff yn anfon gwybodaeth bersonol neu sensitif at aelod o gymuned Coleg Gwent. Arfer da yw trosglwyddo'r cyfrinair trwy ddull gwahanol i'r wybodaeth ei hun e.e e-bostio ffeil, ond ffonio'r derbynnydd gyda manylion y cyfrinair.

4. EITHRIADAU O DDEFNYDD ANNERBYNIOL

Mae nifer o weithgareddau dilys y coleg y gellir eu cyflawni gan ddefnyddio adnoddau TGCh Coleg Gwent y gellid eu hystyried yn ddefnydd annerbyniol. Er enghraifft, ymchwil yn cynnwys deunydd difenwol, gwahaniaethol, neu ddeunydd bygythiol, defnydd o ddelweddau a all ddarlunio trais, astudiaeth trosedd casineb, deunydd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth neu ymchwil i dechnegau ymyrryd â chyfrifiadur. Dylid ceisio cyngor gan y Cyfarwyddwr TGCh mewn achosion o'r fath.

5. ADRODD AM BRYDERON A DIGWYDDIADAU

Rhaid rhoi adrodd am bob pryder a digwyddiad ar unwaith drwy'r sianel adrodd briodol *(cyfeiriwch at dudalen 2)*.

DATGANIAD POLISI

Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r angen i godi ymwybyddiaeth o faterion cysylltiedig gyda defnydd diogel o dechnoleg.

PWRPAS A CHWMPAS

Mae'r Polisi E-Ddiogelwch wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth gyda dysgwyr a staff mewn perthynas gweithio yn ddiogel gyda thechnoleg ac wrth wneud hynny, cefnogi defnyddwyr i ddeall risgiau cysylltiedig a'u cyfrifoldebau personol eu hunain. Dylid darllen y polisi ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill y coleg e.e Polisi Defnydd Derbyniol, Diogelu, Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus, Gwrthfwlio, Cyfathrebu, Diogelu Data, Polisïau a Gweithdrefnau Disgyblu Dysgwr a Staff.

POLISI

1. YMDDYGIAD

Nid yw'r llinell rhwng cyhoeddus a phreifat, proffesiynol a phersonol bob amser wedi'i diffinio'n glir wrth ddefnyddio technoleg. Wrth gymryd rhan naill ai mewn rhinwedd broffesiynol neu bersonol, rhaid i staff a dysgwyr ymddwyn yn briodol. Mae enghreifftiau o ymddygiad priodol y mae'n rhaid i bob defnyddiwr ei ddilyn yn cynnwys:

- bod yn broffesiynol, yn gwrtais, a parchus;
- bod yn dryloyw ac yn onest;
- meddwl yn ofalus am sut a pa weithgareddau sy'n cael eu cynnal; a
- dileu neu wneud cais i ddileu unrhyw sylwadau neu ddelweddau amhriodol.

Rhaid i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o ganlyniadau ymddwyn yn amhriodol, mae enghreifftiau o ymddygiad amhriodol yn cynnwys:

- gwneud sylwadau a allai gael eu hystyried fel bwlio, aflonyddu neu ymddygiad gwahaniaethol yn erbyn unrhyw unigolyn;
- defnyddio iaith ac arddulliau ysgrifennu sarhaus, difrïol, neu frawychus;
- cael mynediad, gwylio, neu lawr lwytho deunydd y gallai achos tramgwydd i bobl eraill neu gall fod yn anghyfreithlon;
- llwytho sylwadau, delweddau, ffotograffau a/neu fideos amhriodol;
- cyhoeddi deunydd difenwol a/neu ddeunydd ffug a hynny pan rydych yn gwybod ei fod yn ddeunydd ffug
- cymryd rhan mewn gweithgaredd a all gyfaddawdu eich swydd yn y Coleg;
- ymgysylltu mewn gweithgareddau sydd â'r posibilrwydd o ddwyn gwarth ar y Coleg
- Torri cyfrinachedd drwy ddatgelu gwybodaeth freiniol, sensitif a/neu gyfrinachol; a
- postio unrhyw ddeunydd sy'n torri deddfwriaeth hawlfraint.

2. RHWYDWEITHIAU CYMDEITHASOL

Mae'r Coleg yn cydnabod y gwerth y gall cyfryngau cymdeithasol ei gael ar ein bywydau busnes a phersonol os cânt eu defnyddio mewn ffordd gyfrifol a phroffesiynol. Er y cydnabyddir bod gan staff a dysgwyr hawl i fywyd preifat, mae'r Coleg wedi ymrwymo i gynnal cyfrinachedd a phroffesiynoldeb bob amser. Rhaid i staff sy'n defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol ddangos ymddygiad derbyniol.

Os yw defnyddiwr yn nodi ei hun fel aelod o staff neu ddysgwr yn y Coleg, mae gan hyn y potensial i greu canfyddiadau am y Coleg i ystod o gynulleidfaoedd allanol. Byddwn yn ymdrin

EFFALLAI NAD HWN YW'R COPI CYFREDOL OS YDYW WEDI'I ARGRAFFU

â staff neu ddysgwyr sy'n cyflwyno datganiadau personol o natur ddifenwol neu natur sarhaus ynghylch Coleg Gwent, o dan y weithdrefn ddisgyblu berthnasol.

Bydd staff a dysgwyr yn cael eu dal yn atebol yn bersonol am weithgarwch neu ddeunydd a gyhoeddir ar rwydweithiau cymdeithasol sy'n peryglu eu hunain, eu cydweithwyr a/neu'r Coleg.

3. PERTHNASAU AR RWYDWAITH CYMDEITHASOL

I sicrhau bod ffiniau proffesiynol yn cael eu cynnal, rhaid i staff defnyddio gofal os ydynt yn 'ffrindiau' gyda chydweithwyr.

Ni ddylai staff, o dan unrhyw amgylchiadau, anfon cais at ddysgwyr i fod 'ffrind' ar y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hyn (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Facebook, Twitter, TikTok). Dylai'r holl gyfathrebu rhwng staff a dysgwyr gael ei gyflawni drwy lwyfannau cymeradwy'r coleg megis Teams neu CG Connect.

Mewn perthynas â bod yn 'ffrind' gyda dysgwr, rhaid bod yn ofalus iawn ac fel arfer dim ond at ddibenion addysgol yn unig sydd wedi'u cymeradwyo gan reolwr llinell y byddai hyn yn digwydd.

4. RHWYDWEITHIAU CYMDEITHASOL & CHYFRANOGIAD DYSGWR

Caniateir i staff ddefnyddio llwyfannau cymeradwy'r coleg yn unig, megis Teams neu CG Connect ar gyfer cyfranogiad dysgwr mewn gweithgaredd.

5. RHWYDWEITHIAU CYMDEITHASOL A CHYFEIRIAD I GOLEG GWENT

Mae gan Goleg Gwent bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'i gymeradwyo ac sy'n cael ei fonitro gan yr adran Marchnata. Ni ddylid creu unrhyw safle arall i gynrychioli brand Coleg Gwent. Lle bernir bod angen sefydlu safle, rhaid hysbysu'r adran Marchnata i'w gymeradwyo.

Mae Coleg Gwent yn cadw'r hawl i fod yn berchen ar unrhyw broffil ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n cyfeirio at enw Coleg Gwent. Bydd rhwydweithiau cymdeithasol sy'n nodi eu hunain fel Coleg Gwent yn cael eu monitro gan y coleg a bydd unrhyw bresenoldeb anactif, anghywir neu negyddol yn cael ei ddileu.

6. WHATSAPP

Caniateir defnydd o WhatsApp rhwng staff a dysgwyr neu rieni ble mae'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn taith neu ymweliad fel rhan o'i gwrs at ddibenion diogelu yn unig. Rhaid gadael rhestrau o bwy sydd ar y grŵp gyda'r SA a'u dileu unwaith y bydd y daith wedi dod i ben. Ar ôl i'r daith basio rhaid i staff ddileu'r grŵp a'r manylion cyswllt

7. GOSODIADAU PREIFATRWYDD

Dylai staff a dysgwyr adolygu eu gosodiadau mynediad a phreifatrwydd ar gyfer unrhyw rwydweithiau cymdeithasol, er mwyn rheoli, cyfyngu a diogelu rhag pwy all gael mynediad at y wybodaeth ar y gwefannau hynny. Rhaid i staff a dysgwyr fod yn ymwybodol bod rhwydweithiau cymdeithasol yn fforwm cyhoeddus. Ni ddylai defnyddwyr gymryd yn ganiataol y bydd eu cofnodion ar rwydweithiau cymdeithasol yn aros yn breifat e.e gallai'r hyn sy'n dechrau fel neges breifat gael ei wneud yn gyhoeddus drwy drosglwyddiad ymlaen.

8. DWYN MANYLION PERSONOL

Er mwyn osgoi achos o ddwyn manylion personol, dylai staff a dysgwyr beidio â chyhoeddi unrhyw wybodaeth bersonol neu sensitif e.e. dyddiad geni, cyfeiriad cartref, rhif ffôn neu unrhyw wybodaeth yn ymwneud â chyfrifon banc personol.

Ni ddylai unigolion byth ddatgelu unrhyw enw defnyddiwr na chyfrinair i drydydd parti e.e staff TGCh Coleg Gwent neu mewn ymateb i bobl yn dweud eu bod yn gynrychiolwyr sefydliad bancio.

Dylai unigolion fod yn ymwybodol o ymdrechion gwe-rwydo posibl a ddefnyddir i gymryd eu data personol a pheidio â chlicio ar ddolenni amheus

9. SEIBER

Nid yw bwlio'n gyfyngedig i'r gweithle/coleg a rhaid i unigolion fod yn ymwybodol y gellir defnyddio technoleg i gefnogi ymddygiad bwriadol, mynych a gelyniaethus gan unigolyn neu grŵp. Ni fydd bwlio o unrhyw fath yn cael ei oddef a rhaid adrodd am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau.

10. E- BOST

Rhaid i atodiadau e-bost a dolenni gael eu hadolygu'n ofalus cyn eu hagor. Mae e-byst llygredd yn ffynonellau risg uchel ar gyfer dwyn manylion personol a chyflwyno firysau i gyfrifiadur personol, gliniadur, ffôn clyfar, a rhwydwaith.

Ni ddylai defnyddwyr ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost Coleg Gwent ar gyfer gweithgareddau ar-lein personol e.e ei ddefnyddio fel cyswllt eilaidd ar gyfer cyfrif siopa.

Gellir defnyddio e-bost mewn achosion cyfreithiol a chytundebol yn yr un modd â dogfennaeth copi caled. Nid yw dileu o flwch post defnyddiwr yn golygu bod yr e-bost yn cael ei ddileu'n barhaol a dylid trin pob e-bost fel un y gellir ei adfer.

11. RHYNGRWYD

Mae'n hawdd gwneud copïau o ddeunyddiau ar y Rhyngrwyd. Ond cofiwch fod delweddau, testun a sain neu fideo clipiau yn perthyn i rywun. Mae rheolau ar waith am gopïo deunyddiau pobl eraill. Gelwir hyn yn gyfraith hawlfraint. Os rydych chi'n copïo deunydd pobl eraill o'r rhyngrwyd heb ganiatâd, rydych chi'n torri'r gyfraith a gelwir hyn yn torri hawlfraint, a gallech gael eich dwyn i'r llys, eich dirwyo a bydd yn rhaid i chi dalu iawndal i berchennog yr hawlfraint.

Ni ddylai unigolion fyth gwblhau bancio, siopa ar-lein, neu gael mynediad at ddata sensitif data ar rwydweithiau Wi Fi cyhoeddus, gan gynnwys cyrchu system bwrdd gwaith anghysbell y coleg.

Mae gan y Coleg ddyletswydd gofal i'w ddysgwyr a staff a rhaid amddiffyn ei ddelwedd ac enw da. Felly, mae'r coleg yn defnyddio Ffilter Cynnwys Rhyngrwyd i amddiffyn rhag amlygiad niweidiol i gynnwys ar y Rhyngrwyd. Os bydd unigolyn yn cael mynediad ddeunydd amhriodol yn anfwriadol, dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu ar unwaith.

12. ATAL MONITRO

